

Tribiwnlys y Gymraeg Adroddiad Blynyddol 2017 – 2018

Chwefror 2019



Tribiwnlys y Gymraeg
Welsh Language Tribunal

Cynnwys

Rhagair		3
Adran 1	Amdanom ni	5
Adran 2	Perfformiad a Datblygiad	9
Adran 3	Uchafbwyntiau Penderfyniadau'r Tribiwnlys	14
Adran 4	Ein Cwsmeriaid	14
Adran 5	Blaenoriaethau Busnes	15
Adran 6	Gwariant	15

Rhagair



Dyma bedwerydd Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys y Gymraeg.

Disgrifiais yn yr adroddiadau blaenorol y broses o sefydlu'r Tribiwnlys, gan gynnwys y gwaith heriol o greu corff barnwrol newydd sbon – yr un cyntaf mewn hanes i'w greu o dan ddeddfwriaeth Gymreig (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011). Y Tribiwnlys, hefyd, yw'r corff barnwrol cyntaf yn yr ynysoedd hyn sydd â swyddogaeth benodol o ddehongli ac amddiffyn hawliau ieithyddol. Erbyn y flwyddyn 2016–17 roedd y Tribiwnlys yn dechrau ymdrin ag achosion ac yn dangos ei fod yn gorff hygyrch ac effeithiol. Parhaodd datblygiad y Tribiwnlys yn ystod y flwyddyn o dan sylw.

Er bod y nifer o achosion a ddaeth i law'r Tribiwnlys yn ystod 2017/18 yn fach (4 achos newydd) codwyd ganddynt bwyntiau pwysig ynglŷn â dehongli a gweithredu Mesur y Gymraeg. Cyhoeddodd y Tribiwnlys ddyfarniadau sylweddol mewn dau achos yn ystod y flwyddyn. Ceir crynodebau ohonynt yn hwyrach yn yr Adroddiad hwn ac mae'r dyfarniadau llawn i'w cael ar-lein ar wefan y Tribiwnlys. Yn yr un cyntaf, rhoddwyd canllawiau ar yr egwyddorion perthnasol pan fydd y Comisiynydd yn arfer ei disgresiwn i beidio ag ymchwilio i gŵyn bod corff cyhoeddus wedi methu â chydymffurfio ag un o Safonau'r Gymraeg. Yn y llall, trafodwyd dehongliad cywir y ddyletswydd, o dan rai o'r Safonau, i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Wrth ystyried yr achosion hyn (a'r rhai eraill a ddaeth i law'r Tribiwnlys yn ystod y flwyddyn) roedd y Tribiwnlys yn cyflawni dwy swyddogaeth. Un oedd datrys anghydfod unigol, mewn perthynas â Safonau, rhwng y Comisiynydd ac aelod o'r cyhoedd neu gorff cyhoeddus. Mae cyfiawnder naturiol yn mynnu bod modd i anghydfodau felly gael eu datrys gan gorff barnwrol annibynnol. Ond mae gan y Tribiwnlys swyddogaeth ehangach, sef cynorthwyo'r cyhoedd, cyrff cyhoeddus a'r Comisiynydd i weithredu'r gyfundrefn Safonau yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl. Pan fydd y Tribiwnlys, at ddibenion achos unigol, yn dehongli'r Mesur neu Safonau unigol, mae hynny'n effeithio ar fwy na'r achos hwnnw'n unig. Mae penderfyniad y Tribiwnlys hefyd yn sicrhau bod pawb sy'n gweithredu'r Ddeddf a'r Safonau yn medru gwneud hynny mewn ffordd gywir a chyson. Pwrpas system o gyfiawnder gweinyddol, fel Tribiwnlys y Gymraeg, o fewn cyfundrefn weinyddol arbenigol, yw cynorthwyo'r rhai sy'n gweinyddu'r gyfundrefn honno i wneud hynny mor deg ac effeithiol â phosibl. Dylid gweld y Tribiwnlys fel rhan adeiladol allweddol o'r gyfundrefn Safonau yn gyffredinol.

Un datblygiad yn ystod y flwyddyn, a fydd yn cael dylanwad positif iawn ar effeithiolrwydd cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru, oedd penodi Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, swydd newydd a grëwyd yn sgil diwygiadau statudol a wnaed gan Ddeddf Cymru 2017. Penodwyd Syr Wyn Williams i fod yn ddeiliad cyntaf y swydd. Ei rôl yw bod yn arweinydd barnwrol ar gyfer yr holl driwlysoedd datganoledig yng Nghymru, gan sicrhau cydlyniant rhyngddynt mewn materion fel gweithdrefnau, hyfforddiant a disgyblaeth, a chan gynrychioli'r farnwriaeth weinyddol Gymreig yn ei pherthynas gyda Llywodraeth Cymru a chyda barnwriaethau'r awdurdodaethau eraill o fewn y Deyrnas Unedig. Rwy'n hyderus y bydd y datblygiad hwn yn arwain at gamau cynyddol i ddatblygu Tribiwnlysoedd Cymru fel elfen fwyfwy pwysig ac effeithiol o'r gyfundrefn gyfiawnder yng Nghymru.

Keith Bush CF
Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg

Adran 1 – Amdanom ni

Yn yr adran hon:

- Cefndir
- Swyddogaethau'r Tribiwnlys
- Rheolau'r Tribiwnlys
- Cyfarwyddiadau Ymarfer
- Aelodau'r Tribiwnlys
- Hyfforddiant
- Cysylltu â'r Tribiwnlys
- Hygyrchedd y Tribiwnlys

Cefndir

Mae Tribiwnlys y Gymraeg yn dribiwnlys statudol a sefydlwyd o dan adran 120 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur'). Swyddogaeth y Tribiwnlys yw penderfynu ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

Swyddogaethau'r Tribiwnlys

Mae'r Mesur yn galluogi'r Tribiwnlys i wrando ar y materion canlynol:

1. Apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Comisiynydd o ran gosod Safonau ar gyrf a swyddogion sy'n arfer swyddogaethau neu'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
2. Apeliadau, gan rywun y gwnaed cwyn yn ei erbyn, yn erbyn dyfarniadau'r Comisiynydd, ar ddiwedd ymchwiliad i'r gŵyn, ei fod wedi methu â chydymffurfio â gofyniad Safon.
3. Apeliadau gan achwynydd, yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd, ar ddiwedd ymchwiliad nad oedd person y gwnaed cwyn yn ei erbyn, wedi methu, mewn gwirionedd, â chydymffurfio â safon.
4. Apeliadau yn erbyn camau gorfodi sy'n cael eu cymryd gan y Comisiynydd
5. Apeliadau yn erbyn hysbysiadau tystiolaeth a roddir gan y Comisiynydd yn ystod ymchwiliad
6. Adolygiadau o benderfyniadau ar ran y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gŵyn (neu i derfynu ymchwiliad heb ddod i benderfyniad).

Rheolau'r Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn gweithredu'n unol a'i reolau gweithdrefnol – **Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015**. Pwrpas y Rheolau hyn yw sicrhau bod yr holl achosion sy'n dod o flaen y Tribiwnlys yn cael eu trin yn deg, yn gyson ac yn brydlon. Maent yn sicrhau y bydd y rhai sy'n dod ag achos o flaen y Tribiwnlys yn deall yn union pa gamau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd er mwyn i ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol fedru cael eu cyflwyno'n effeithiol i'r Tribiwnlys. Maent hefyd yn sicrhau y bydd pob parti i'r achos yn deall dadleuon partion eraill ac yn medru ymateb iddynt.

Yn ôl adran 123 o'r Mesur, mae dyletswydd ar y Llywydd i wneud Rheolau Tribiwnlys ar yr arferion a'r gweithdrefnau i'w dilyn yn y Tribiwnlys.

Mae Rheolau'r Tribiwnlys yn amlinellu'r canlynol:

- rheolau cyffredin – sy'n ymdrin â rhai egwyddorion sylfaenol cyffredin ac yn diffinio'r termau arbennig sy'n cael eu defnyddio yn y Rheolau
- darpariaethau sy'n ymwneud â dewis yr Aelodau o'r Tribiwnlys a fydd yn gwrando achosion unigol
- sut i gychwyn cais i'r Tribiwnlys
- y camau ymarferol y bydd yn rhaid eu cymryd er mwyn paratoi achos ar gyfer gwrandawriad
- y pwerau a fydd gan y Tribiwnlys i reoli achosion, gan gynnwys y cyfarwyddiadau y bydd y Tribiwnlys yn gallu eu rhoi i bartion ar ba gamau y bydd rhaid iddynt eu cymryd cyn y gwrandawriad
- y drefn ar gyfer gwrandawriadau a phenderfyniadau ffurfiol y Tribiwnlys
- beth sy'n digwydd ar ôl i benderfyniad gael ei wneud, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer adolygu penderfyniadau'r Tribiwnlys neu apelio i'r Uchel Lys
- darpariaethau amrywiol eraill, gan gynnwys rheolau gweinyddol ar gofnodi penderfyniadau, cyflwyno dogfennau a mesur terfynau amser.

Cyfarwyddiadau Ymarfer

Awdurdodir y Llywydd, o dan adran 124 o'r Mesur a Rheol 4 o'r Rheolau, i roi Cyfarwyddiadau Ymarfer er mwyn rhoi cyngor ymarferol ar sut i ddehongli a gweithredu'r Rheolau.

Cyfarwyddyd Ymarfer 1 – Cychwyn achos

Mae Rheol 10 o'r Rheolau yn darparu bod yn rhaid i gais i'r Tribiwnlys gael ei wneud trwy gyflwyno i'r Tribiwnlys ddogfen ysgrifenedig (hysbysiad cais). Mae Rheol 12 yn rhagnodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn cais, ac ynghyd â chais.

Pwrpas y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yw cyhoeddi ffurflen a fydd, o'i defnyddio gan geisydd, yn cynorthwyo'r geisydd (neu gynrychiolydd y geisydd) i gydymffurfio â gofynion Rheol 12. Dylid defnyddio'r ffurflen honno ar gyfer cyflwyno hysbysiad cais.

Serch hynny, nid yw'n ofyniad cyfreithiol i ddefnyddio'r ffurflen. Gall geisydd ddarparu'r wybodaeth sy'n cael ei rhagnodi gan Rheol 12 mewn ffurf arall. Ond bydd defnyddio'r ffurflen yn:

- sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei rhoi
- cynorthwyo'r Tribiwnlys i ystyried y wybodaeth honno yn y dull mwyaf cyson ac effeithiol posibl.

Cyfarwyddyd Ymarfer 2 – Y Defnydd o Ieithoedd y Tribiwnlys

Mae Rheol 6 o'r Rheolau yn darparu:

- mai ieithoedd y Tribiwnlys yw'r Gymraeg a'r Saesneg
- bod gan bob parti neu dyst yr hawl i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall yn nhrefodion y Tribiwnlys.

Pwrpas y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yw rhoi cyngor ymarferol ar sut i ddehongli'r Rheolau a sut i roi effaith i weithdrefnau'r Tribiwnlys, mewn modd sy'n unol â Rheol 6.

Yn unol â Rheol 4(4), mae cynnwys y Cyfarwyddyd hwn yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddiadau sy'n cael eu rhoi gan y Tribiwnlys mewn perthynas ag achos penodol.

Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yn ymwneud, yn unig, â chyfathrebiadau sy'n rhan o drafodion y Tribiwnlys mewn perthynas ag achos penodol ac sy'n cael eu rheoli gan ddarpariaethau'r Rheolau.

Cyfarwyddyd Ymarfer 3 – Arfer swyddogaethau'r Tribiwnlys

Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer pennu pwy fydd, fel arfer, yn gwneud penderfyniadau yn enw'r Tribiwnlys. Mae'n darparu, er enghraifft, mai Llywydd y Tribiwnlys (neu aelod arall o'r Tribiwnlys sydd â chymhwyster cyfreithiol) fydd yn delio gyda chwestiynau paratoadol, cyn y bydd achos yn cyrraedd gwrandawriad, tra bydd y gwrandawriad, a'r penderfyniad terfynol ar yr achos, yn nwylo panel o dri aelod o'r Tribiwnlys.

Cyfarwyddyd Ymarfer 4 – Ceisiadau i'r Tribiwnlys i ddileu hysbysiad tystiolaeth

Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yn cymhwyso gweithdrefnau'r Tribiwnlys i ddsbarth penodol o apeliadau a all godi o ymchwiliad gan y Comisiynydd i gwŷn, sef apeliadau i'r Tribiwnlys yn erbyn hysbysiadau tystiolaeth a roddwyd gan y Comisiynydd o dan baragraff 5 o Atodlen 10 i'r Mesur.

(Nodyn: Cafodd Cyfarwyddiadau 3 a 4 eu gwneud yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn – fe'u cymeradwywyd gan y Prif Weinidog ar 9 Hydref 2017 ac fe'u gwnaed gan y Llywydd ar 17 Hydref 2017.)

Aelodau'r Tribiwnlys

Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi'r Llywydd, Aelodau o'r Tribiwnlys sy'n gyfreithiol gymwys ac Aelodau lleyg. Penodwyd yr Aelodau ar ôl i'r swyddi gwag gael eu hysbysebu ac ar ôl cyfweiliad cystadleuol gan banel a gnullwyd gan Lywodraeth Cymru. Penodwyd y Llywydd ac Aelodau eraill y Tribiwnlys am dymor o 5 mlynedd.

Llywydd

Y Llywydd sydd â chyfrifoldeb barnwrol dros y Tribiwnlys a'i aelodau.

Aelodau cyfreithiol

Cyfreithwyr (Bargyfreithwyr neu Dwrneiod) yw'r Aelodau cyfreithiol ac maent yn gyfrifol am lywyddu ar wrandawriadau ac am arfer swyddogaethau mewn perthynas â chamau rhagarweiniol – e.e. rhoi cyfarwyddiadau ynglŷn â'r dystiolaeth a fydd yn cael ei chyflwyno gan bartïon.

Aelodau lleyg


Mae gan Aelodau lleyg ystod eang o wybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i waith y Tribiwnlys. Maent yn chwarae rhan lawn, a chanddynt lais cyfartal i leisiau Aelodau eraill (gan gynnwys Aelodau Cyfreithiol) ym mhenderfyniadau'r Tribiwnlys.

Ysgrifenyddiaeth

Mae gweinyddiaeth y Tribiwnlys o ddydd i ddydd yn cael ei dirprwyo i ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys, sy'n ymdrin â'r gwaith rhagarweiniol a'r gwaith o brosesu ceisiadau i'r Tribiwnlys. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r Llywydd a/neu'r Aelod cyfreithiol a fydd yn cadeirio gwrandawriad penodol ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol a gyfyd yn ystod cyfnodau rhagarweiniol achosion cyn y gwrandawriad, ac yn anfon unrhyw ddyfarniadau a chyfarwyddiadau at y partïon yn ysgrifenedig.

Penodiadau

Yn ystod 2017–18 ni wnaed unrhyw benodiadau i'r Tribiwnlys.



Hyfforddiant

Mae'n ddyletswydd statudol ar Lywydd Tribiwnlys y Gymraeg, o dan adran 133 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i gynnal trefniadau priodol ar gyfer hyfforddiant aelodau'r Tribiwnlys. Fel rhan o'r trefniadau hynny, cynhaliwyd diwrnod hyfforddi i Aelodau ym mis Hydref 2017 yn Aberystwyth.

Cafwyd cyflwyniadau gan Syr Wyn Williams (darpar Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru), Dr Catrin Fflur Hughes (Prifysgol Aberystwyth) ac aelod o dîm Bil y Gymraeg (mewn perthynas â diwygiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru i Fesur y Gymraeg). Cafwyd hefyd drafodaeth ar record y Tribiwnlys hyd yma wrth drin achosion, gyda golwg ar sicrhau a gwella hygyrchedd ac effeithiolrwydd gweithdrefnau'r Tribiwnlys.

Cysylltu â'r Tribiwnlys

Dyma fanylion cyswllt Tribiwnlys y Gymraeg:

Cyfeiriad: Tribiwnlys y Gymraeg
Llawr Cyntaf, Adain Orllewinol
Tŷ Southgate
Stryd Wood
Caerdydd
CF10 1EW

Llinell Gymorth y Tribiwnlys: 03000 256702

E-bost y Tribiwnlys: tyg@llyw.cymru

Gwefan y Tribiwnlys: tribiwnlysygymraeg.llyw.cymru

Hygyrchedd y Tribiwnlys

Mae croeso i chi gyfathrebu gyda'r Tribiwnlys yn Gymraeg neu Saesneg. Mae Rheol 6 o'r Rheolau yn darparu:

- mai ieithoedd y Tribiwnlys yw'r Gymraeg a'r Saesneg
- bod gan bob parti neu dyst yr hawl i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall yn nhrefodion y Tribiwnlys.

Mae **Cyfarwyddyd Ymarfer 2** yn rhoi cyngor ymarferol ar sut i ddehongli a gweithredu'r Rheolau mewn modd sy'n unol â Rheol 6.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi manylion unrhyw anghenion ychwanegol sydd gennych chi, neu eich cynrychiolydd, pan fyddwch yn anfon eich hysbysiad cais atom. Er enghraifft, os bydd angen arwyddwr neu ddehonglydd arnoch yn y gwrandawriad, neu os bydd angen gwneud unrhyw drefniadau ychwanegol ar gyfer y gwrandawriad, byddwn yn sicrhau bod y trefniadau ychwanegol angenrheidiol wedi eu darparu ar gyfer y gwrandawriad.

Adran 2 – Perfformiad a Datblygiad

Yn yr adran hon, trafodir:

- Niferoedd ac ystadegau
- Adolygiadau mewnol ac apeliadau i'r Uchel Lys
- Cwynion
- Effeithiolrwydd ein gwasanaeth

Niferoedd ac ystadegau

Mae'r Mesur yn galluogi unigolyn neu sefydliad i wneud apêl i'r Tribiwnlys ar y materion canlynol:

- Adran 58 – Dyfarniad gan y Comisiynydd nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon (neu gydymffurfio â safon mewn modd penodol) yn afresymol neu'n anghymesur.
- Adran 95(2) – Dyfarniad gan y Comisiynydd fod methiant wedi bod i gydymffurfio â gofyniad safon.
- Atodlen 10, paragraffau 9 a 10 – apeliadau yn erbyn hysbysiadau tystiolaeth a roddir gan y Comisiynydd yn ystod ymchwiliad.
- Adran 95(4) – Camau gorfodi y mae'r Comisiynydd wedi penderfynu eu cymryd.
- Adran 99(2) – Dyfarniad gan y Comisiynydd na fu methiant i gydymffurfio â safon.
- Adran 103 – Penderfyniad gan y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad i gwyn (neu i derfynu ymchwiliad).

Ceisiadau

Yn ystod 2017–18 derbyniwyd 4 o geisiadau newydd, roedd 1 cais wedi ei gario drosodd o 2016–17 a chariwyd un achos a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn drosodd i 2018–19:

Math o gais	Nifer a dderbyniwyd yn 2017–18	Cariwyd drosodd o 2016–17	Cariwyd ymlaen i 2018–19	Caniatawyd	Gwrthodwyd	Tynnwyd yn ôl
Adran 58	–	–		–	–	–
Adran 95(2)	–	–		–	–	–
Adran 95(4)	–	–		–	–	–
Adran 99(2)	–	–		–	–	–
Adran 103	4	1	1	2	2	0

(Nodyn: Ystyriwyd un achos (TyG/WLT/16/5) yn ystadegau adroddiad 2016–17 fel un a oedd wedi'i ddatrys yn ystod 2016–17 gan ei fod wedi'i benderfynu yn ystod y flwyddyn honno, er bod y penderfyniad wedi'i gyhoeddi ychydig ddyddiau ar ôl diwedd y flwyddyn)

Natur yr achosion a gyflwynwyd i'r Tribiwnlys yn ystod 2017/18:

Natur yr achos	Nifer yr achosion
Ceisiadau am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gwŷn (adran 103 o'r Mesur).	4 (100%)
Cyfanswm	4

Sut y datryswyd achosion (achosion a dderbyniwyd yn 2017/18 a'r achos gafodd ei gario drosodd o 2016/17):

Natur y datrysiad	Nifer
Tynnwyd y cais yn ôl	0 (0%)
Gwrthodwyd caniatâd i wneud cais (achosion o dan adran 103)	2 (50%)
Caniatawyd	2 (50%)
Cyfanswm	4

Yr Amser Rhwng Derbyn Cais a Datrysiaid	
Nifer o ddyddiau gwaith rhwng derbyn y cais a'r datrysiaid	Modd o ddatrys y cais
9	Gwrthodwyd caniatâd i wneud y cais
134	Caniatawyd y cais ar ôl cynnal gwrandawriad
137	Caniatawyd y cais ar ôl cynnal gwrandawriad
7	Gwrthodwyd caniatâd i wneud y cais
72	Nifer o ddyddiau gwaith rhwng derbyn cais a'r datrysiaid, ar gyfartaledd.

Gwrandawiadau

Yn ystod 2017–18 cynhaliodd y Tribiwnlys ddau wrandawriad llawn.

Adolygiadau mewnol ac apeliadau i'r Uchel Lys

Adolygiad mewnol o benderfyniad y Tribiwnlys

Caiff parti wneud cais i'r Tribiwnlys i adolygu ei benderfyniad ar y seiliau:

- bod y penderfyniad a wnaed yn anghywir oherwydd gwall pwysig ar ran gweinyddiaeth y Tribiwnlys
- bod gan barti a oedd â hawl i gael ei glywed yn y gwrandawriad, ond a fethodd ag ymddangos neu gael ei gynrychioli, reswm da a digonol dros beidio ag ymddangos
- bod gwall amlwg a phwysig yn y penderfyniad.

Rhaid i gais am adolygu penderfyniad y Tribiwnlys gael ei wneud yn ysgrifenedig gan ddatgan y seiliau, ddim hwyrach na 28 diwrnod ar ôl y dyddiad yr anfonwyd y penderfyniad at y partion.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ni chafwyd dim ceisiadau am adolygiad.

Apeliadau i'r Uchel Lys

Caiff parti, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, apelio i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o benderfyniad y Tribiwnlys.

Rhaid i ni dderbyn eich cais am ganiatâd i apelio i'r Uchel Lys o fewn 28 diwrnod calendr o'r dyddiad y cawsoch eich hysbysu o benderfyniad y Tribiwnlys. Mae'n fater i unrhyw berson sy'n ystyried apêl gymryd cyngor cyfreithiol eu hunain.


Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ni chafwyd dim ceisiadau am ganiatâd i apelio.

Cwynion

Ni chafodd y Tribiwnlys ddim cwynion ffurfiol yn ystod cyfnod yr adroddiad.

Effeithiolrwydd ein gwasanaeth

Er mwyn monitro pa mor effeithiol yw'r gwasanaethau, y nod yw llunio dangosyddion perfformiad allweddol sy'n mesur dwy agwedd allweddol ar ein gwaith; effeithlonrwydd ein gwasanaeth, a'i ansawdd trwy foddhad cwsmeriaid.



* gan eithrio'r rhai sydd angen caniatâd o dan adran 103(2) o'r Mesur a'r rhai lle bo angen gwybodaeth bellach oddi wrth y ceisydd cyn y gellid eu cofrestru.

** Dangoswyd bod yr amser sydd ei angen ar y partïon, mewn rhai achosion, i ddiffinio, trwy gyfnewid datganiadau achos, eu safbwyntiau ffurfiol yn hwy nag oedd wedi'i ddisgwyl, gan ei gwneud yn amhosibl, yn yr achosion cymharol gymhleth hynny, symud ymlaen i drefnu gwrandawriad mor fuan ag y disgwyliid. Profiad y Tribiwnlys yw bod datrys achos felly yn cymryd tua 6 mis (gweler uchod) gan gynnwys tua 5 mis rhwng derbyn yr achos a chynnal gwrandawriad a mis ychwanegol ar gyfer llunio a chyhoeddi'r penderfyniad. Bwriad y Tribiwnlys, ar ôl cael mwy o brofiad o reoli achosion, yw ystyried a ellid adolygu ei weithdrefnau er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen.

Adran 3 – Uchafbwyntiau Penderfyniadau'r Tribiwnlys

Achos TyG/WLT/2016/8: JK v Comisiynydd y Gymraeg

Roedd y ceisydd wedi cwyno i'r Comisiynydd fod ei gyngor lleol wedi codi arwyddion o gwmpas coeden Nadolig a osodwyd gan y cyngor mewn man cyhoeddus a'r arwyddion hynny'n gosod y testun Cymraeg islaw'r Saesneg. Cwynodd fod hynny'n groes i Safonau'r Gymraeg. Penderfynodd y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad i'r gŵyn, am fod yr arwydd yn un "tymhorol" a fyddai wedi cael ei thynnu i lawr ar ôl y Nadolig. Nid oedd y Comisiynydd yn credu, felly, y byddai cynnal ymchwiliad i'r sefyllfa yn gymesur. Derbyniodd y Tribiwnlys fod gan y Comisiynydd ddisgresiwn, wedi iddi dderbyn cwyn o fethiant i gydymffurfio â safon, i gynnal ymchwiliad neu beidio. Ond fel y dangosodd dyfarniad Tŷ'r Arglwyddi yn achos *Padfield v Minister of Agriculture* [1968] UKHL 1, rhaid i'r disgresiwn hwnnw gael ei arfer yn rhesymegol, ar sail yr holl ffactorau perthnasol, ac yn unol ag amcanion Mesur y Gymraeg a'r Safonau a wnaed o dan y Mesur. Nid oedd seilio penderfyniad i beidio ag ymchwilio i gŵyn y Ceisydd ar natur "dymhorol" yr arwyddion yn unig yn cydymffurfio â'r egwyddorion hynny, yn enwedig gan fod y Safon perthnasol yn cyfeirio'n benodol at arwyddion dros dro yn ogystal â rhai parhaol. Diddymwyd penderfyniad y Comisiynydd gan y Tribiwnlys a gorchmynnwyd iddi ail-ystyried y mater ar sail canllawiau dyfarniad y Tribiwnlys.

Achos TyG/WLT/2017/2: PR v Comisiynydd y Gymraeg

Cwynodd y Ceisydd i'r Comisiynydd fod ei gyngor lleol yn gosod y Gymraeg islaw'r Saesneg ar negeseuon a ymddangosai ar un o dudalennau Facebook y cyngor. Hawliodd fod hynny'n groes i ddyletswydd y cyngor, o dan Safonau'r Gymraeg, i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Gwrthododd y Comisiynydd ymchwilio i'r gŵyn, gan ddadlau nad oedd gosod y Gymraeg islaw'r Saesneg yn medru cael ei ystyried, o dan y Safon perthnasol, fel trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Seiliodd ei dadl ar y ffaith fod Safonau eraill, er enghraifft rhai a oedd yn ymwneud ag arwyddion, yn mynnu'n benodol bod y ddwy iaith yn cael eu lleoli fel bod y Gymraeg yn debyg o gael ei darllen yn gyntaf. Dadleuodd bod y gwahaniaeth rhwng y ddwy reol yn golygu nad oedd ganddi'r hawl i gymryd trefn yr ieithoedd i ystyriaeth wrth farnu a oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Cytunai'r Tribiwnlys fod y ddwy reol yn gosod dyletswyddau gwahanol ond nododd nad oedd unrhyw reswm pam nad oedd gan y Comisiynydd, wrth ystyried a oedd y neges dan sylw wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yr hawl i ystyried, fel ffactor perthnasol, leoliad y ddwy iaith. Mater i farn werthusol y Comisiynydd, wedi iddi ystyried yr holl amgylchiadau, gan gynnwys lleoliadau'r ddwy iaith, oedd penderfynu a oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gan fod y Comisiynydd wedi cam-ddehongli'r Safon dan sylw ac, o ganlyniad, wedi gwrthod rhoi ystyriaeth i ffactor perthnasol, sef trefn yr ieithoedd, roedd yn rhaid i'r Tribiwnlys ddiddymu ei phenderfyniad i beidio ag ymchwilio i'r gŵyn a gorchmynnwyd iddi ail-ystyried y mater ar sail canllawiau dyfarniad y Tribiwnlys.

Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau Busnes 2017–2018

Mae'n bwysig bod y Tribiwnlys yn datblygu mewn ffordd sy'n ein galluogi i gyflwyno'r gwasanaeth gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd y Tribiwnlys yn adeiladu ar yr hyn y mae wedi'i gyflawni drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

Blaenoriaethau Busnes 2017–2018:

- Cynllunio a chynnal hyfforddiant ar gyfer yr aelodau i gyd.
- Parhau i fonitro a diweddarau gwefan Tribiwnlys y Gymraeg.
- Cyflawni gwasanaeth o ansawdd uchel.
- Mireinio dulliau'r Tribiwnlys o weithio, ar sail profiad o ddelio gydag achosion, er mwyn sicrhau'r safon uchaf o ystyried a phenderfynu achosion.

Adran 5 – Gwariant

Yn yr adran hon, ein:

- Gwariant ar gyfer 2017–2018

Gwariant ar gyfer 2017–2018

Cynnwys	Gwariant*
Ffioedd a threuliau'r aelodau	£28,200
Costau cynnal sesiynau hyfforddiant	£200
Costau cyfieithu ar gyfer gwaith achos	£3,600
Cyfanswm	£32,000

*wedi'i dalgrynnu i'r £100 agosaf